Dyma'r canllawiau ar gyfer

# Cronfa Ddatblygu
# Ffilmiau Byw neu Ffilmiau Nodwedd wedi'u Hanimeiddio Ffilm Cymru Wales

**Cynnwys**


Cyflwyniad ....................................................................................3

O ble y daw cyllid datblygu Ffilm Cymru? .........................................4

Beth yw'r meini prawf ar gyfer y gronfa hon?....................................5

  Meini Prawf Cymhwysedd..........................................................5

  Blaenoriaethau Cyllid Ffilmiau.....................................................7

  Beth nad ydym yn gallu ei ariannu ...............................................7

Sut ydw i'n gwneud cais? ..............................................................8

  Dyddiadau cau.........................................................................9

  A ddylwn i wneud cais am ddyfarniad bach ynteu dyfarniad mawr?9

  Deunyddiau ategol ar gyfer cais am gyllid datblygu .......................10

  Manylion y Gyllideb..................................................................12

  Costau Mynediad .....................................................................14

  Ffioedd awdur a chyfarwyddwr....................................................14

  Ffioedd a gorbenion Cynhyrchwyr ...............................................15

  Alla i gael cymorth gyda fy nghais? .............................................16

  Manylion Cyswllt......................................................................17

Beth fydd yn digwydd nesaf? .........................................................17

  Cadarnhad o'ch cais am gyllid datblygu .......................................17

  Meini Prawf Asesu....................................................................18

Y Broses Asesu ........ 19
Amserlen Gwneud Penderfyniadau Dangosol ........ 19
Adborth ........ 19
Ailgyflwyno ........ 20
Sut ydw i'n gweithio gyda Ffilm Cymru os dyfernir cyllid i mi? ........ 21
Y broses o ddyfarnu cyllid ........ 22
Beth fydd telerau ac amodau fy nghyllid? ........ 22
Unwaith y bydd fy nyfarniad wedi'i gwblhau ........ 25
Nodau Strategol ........ 27
Ffilm Cymru a Chynaliadwyedd ........ 27
Cynaliadwyedd Amgylcheddol ........ 28
Amrywiaeth a Chynhwysiant ........ 28
Sgiliau a Hyfforddiant ........ 29
Entrepreneuriaeth ........ 30
Cyllid Cynaliadwyedd ........ 31
Meini Prawf Cyllido Cynaliadwyedd ........ 32
Telerau Busnes Safonol Ffilm Cymru Wales ........ 33
Atodiad ........ 36

# Cyflwyniad

Croeso i'r canllawiau ar gyllid datblygu ffilmiau byw neu ffilmiau nodwedd wedi'u hanimeiddio Ffilm Cymru Wales  Os ydych chi'n chwilio am gyllid datblygu ar gyfer prosiect dogfen nodwedd, dylech ddarllen y canllawiau hynny yn hytrach.

Cwmni Buddiannau Cymunedol yw Ffilm Cymru, a'i gylch gwaith yw datblygu sector ffilm cynaliadwy yng Nghymru. Un o'r ffyrdd allweddol o wneud hyn yw drwy fuddsoddi mewn gwneuthurwyr ffilmiau o Gymru a'u syniadau. Rydyn ni eisiau rhoi ffilmiau o Gymru ar y map drwy feithrin, o gam cynnar, ffilmiau annibynnol, anghonfensiynol, uchelgeisiol a chywrain. Yn benodol, rydyn ni'n awyddus iawn i hyrwyddo lleisiau sy'n cael eu tangynrychioli yn y byd ffilmiau a gwthio ffiniau'r hyn rydyn ni'n eu hystyried yn ffilmiau Cymru. Rydym yn croesawu cyd-gynyrchiadau, gwaith yn Iaith Arwyddion Prydain, yn y Gymraeg, ac mewn ieithoedd lleiafrifol eraill, yn ogystal â phrosiectau sy'n arbrofi gyda ffurf ac arddull.

Drwy gyfrwng y gronfa hon, rydym yn cefnogi ffilmiau greiddiol byw naratif neu wedi'u hanimeiddio sydd wedi'u bwriadu ar gyfer y sinema ac sy'n cael eu harwain gan awduron, cyfarwyddwyr neu gynhyrchwyr sy'n enedigol o Gymru neu sydd wedi'u lleoli yng Nghymru (cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel gwneuthurwyr ffilmiau o Gymru neu ddoniau o Gymru). Mae dwy lefel o gymorth ar gael yn ein cronfa ddatblygu –  **dyfarniadau bach o hyd at £10,000 a dyfarniadau mawr o hyd at £24,999** (i gael rhagor o arweiniad ar ba un y dylech wneud cais amdano, gweler Y Broses Ymgeisio isod).

Os yw unrhyw beth yn aneglur yn y canllawiau hyn, neu os hoffech chi gael cymorth i wneud cais, cysylltwch â ni (gweler y Manylion Cyswllt isod).

# O ble y daw cyllid datblygu Ffilm Cymru?

Mae cyllid datblygu Ffilm Cymru Wales yn cynnwys Cronfeydd y Loteri Genedlaethol a ddirprwyir drwy Gyngor Celfyddydau Cymru (CCC) a chyllid BFI NETWORK a ddirprwyir drwy Sefydliad Ffilm Prydain (BFI). Ni yw partner cyflenwi BFI NETWORK yng Nghymru; cydweithrediad yw rhwng y BFI, sefydliadau ffilm cenedlaethol a lleoliadau diwylliannol blaenllaw ledled y DU. Mae BFI NETWORK yn darparu cyllid datblygu ffilmiau byr a ffilmiau nodwedd cynnar, datblygiad proffesiynol wedi'i gefnogi gan y diwydiant a chymorth rhwydweithio i gynhyrchwyr, awduron a chyfarwyddwyr 18 oed a hŷn.

Cyllid dethol rydym yn ei gynnig yn hytrach na chyllid awtomatig, ac mae'n canolbwyntio ar ffilmiau annibynnol sy'n cael eu gwneud ar gyfer sinema ac sy'n cael eu harwain gan wneuthurwyr ffilmiau o Gymru.

Mae gan Ffilm Cymru tua £300k i'w fuddsoddi bob blwyddyn i ddatblygu ffilmiau nodwedd. Mae hwn yn cynnwys incwm a gafwyd gan CCC a BFI yn ogystal ag unrhyw arian a gariwyd drosodd o'r flwyddyn ariannol flaenorol ac unrhyw incwm a gynhyrchwyd gan ein buddsoddiadau mewn ffilmiau. Mae dadansoddiad manwl o'r buddsoddiadau a wnawn bob blwyddyn ar gael yn ein Hadroddiadau Blynyddol[1].

[1] ffilmcymruwales.com/index.php/about-us/our-reports

## Beth yw'r meini prawf ar gyfer y gronfa hon?

Mae gan CCC a BFI baramedrau cyllido (rheolau cyllido'r Loteri Genedlaethol ydy rhai ohonynt), ac mae ein cronfeydd ni yn eu hadlewyrchu. Yn ogystal â hyn, rydym wedi llunio ein cronfa ddatblygu mewn ymateb i'r anghenion rydym wedi'u gweld ers ein sefydlu a datblygiadau'r sector ffilmiau ehangach, a hynny dan arweiniad y gwneuthurwyr ffilmiau rydym yn eu hariannu a'n Bwrdd[2].

## Meini Prawf Cymhwysedd

Er mwyn gwneud cais am y gronfa hon, **nid oes angen i chi fod â chynhyrchydd ynghlwm** ond mae'n annhebygol y cewch y dyfarniad uchaf sydd ar gael heb fod cynhyrchydd ynghlwm. Rhaid i'r prif gynhyrchydd, os yw wedi'i atodi, fod yn berson gwahanol i'r prif awdur a'r cyfarwyddwr.

Rhaid i ymgeiswyr am ddyfarniadau datblygu bach neu fawr wneud y canlynol:

- Sicrhau bod naill ai'r awdur, y cynhyrchydd neu'r cyfarwyddwr arweiniol yn ddawn sy'n enedigol o Gymru neu wedi'u lleoli yng Nghymru. Bydd prosiectau sydd â dawn o Gymru mewn rôl cyd-gynhyrchydd neu gyd-awdur yn cael eu hystyried os yw'r prosiect yn adlewyrchu cyfle ymarferol a dilyniant clir i'r ddawn Gymreig, naill ai yn y gyllideb, genre a/neu bartneriaethau. Fodd bynnag, bydd y rhan fwyaf o'r dyfarniadau'n mynd i brosiectau sy'n cael eu harwain gan ddoniau Cymreig.[3]
- Cyflwyno cynnig am ffilm nodwedd wreiddiol y bwriedir i'w rhyddhau mewn sinema.

[2] ffilmcymruwales.com/index.php/cy/about-us/ein-bwrdd

[3] Os yw'r awdur wedi'i leoli yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon a dyma fyddai ei ffilm nodwedd gyntaf, efallai y bydd cyllid datblygu amgen ar gael drwy BFI NETWORK - bfi.org.uk/get-funding-support/bfi-network.

- Cyflwyno prosiect rydych chi'n rhagweld y byddai'n gallu cymhwyso fel prosiect Prydeinig drwy'r Prawf Diwylliannol, sef un o gytundebau cyd-gynhyrchu swyddogol y DU NEU'R Confensiwn Ewropeaidd ar Gydgynhyrchu.[4]
- Cyflwyno prosiect a fydd yn gallu ennill (ar ôl ei wneud) dystysgrif BBFC na fydd yn fwy cyfyngol na BBFC '18'.
- Cael awduron, cyfarwyddwyr a chynhyrchwyr ar eich prosiect sydd dros 18 oed ac nad ydynt mewn addysg amser llawn.
- Bod yn berchen ar yr hawliau yn y prosiect (gan gynnwys unrhyw hawliau sylfaenol), neu fod yn y broses o wneud hynny.
- Bod yn gallu dangos tystiolaeth o enw da creadigol cadarn ar gyfer yr awdur, y cynhyrchydd a'r cyfarwyddwr (os yn berthnasol) yn ei rôl. Gallai hwn fod yn waith sydd wedi cael ei gynhyrchu yn y sector ffilm, teledu, theatr neu ffurf celfyddydol naratif arall sydd wedi ennill cydnabyddiaeth yn y diwydiant (er enghraifft wedi ei ddethol ar gyfer gwyliau, dangosiadau, darllediadau, erthyglau neu adolygiadau).

Rhaid i ymgeiswyr am y dyfarniadau mawr hefyd wneud y canlynol:

- Bod yn gallu gwneud cais drwy gwmni a gofrestrwyd ac a reolir yn ganolog yn y Deyrnas Unedig. Byddai'r cwmni hwn fel arfer yn cael ei arwain gan y cynhyrchydd os oes un ynghlwm. Mae hyn hefyd yn berthnasol i gyd-gynyrchiadau rhyngwladol cymwys Prydeinig, a groesawir[5].

Yn ogystal â hyn, bydd Ffilm Cymru yn hoelio ffocws ei fuddsoddiadau ar brosiectau sy'n bodloni un neu fwy o'r canlynol:

[4] bfi.org.uk/apply-british-certification-tax-relief
[5] I gael cyngor ar sefydlu cwmni, ewch i dŷ'r cwmnïau - government/organisations/companies-house.cy.

## Blaenoriaethau Cyllid Ffilmiau

- Gwneuthurwyr ffilmiau o Gymru sydd yng nghamau cynnar eu gyrfaoedd
- Ffilmiau sy'n cael eu harwain gan wneuthurwyr ffilmiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol o safbwynt nodweddion gwarchodedig neu anfantais economaidd-gymdeithasol
- Ffilmiau sy'n berthnasol i gynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n draddodiadol gan ffilmiau nodwedd gan gynnwys ffilmiau Cymraeg[6]
- Ffilmiau â gwerth artistig cryf, sy'n cymryd risg gyda thalent, cynnwys neu ffurf y byddai'r sector masnachol yn cael trafferth ei gefnogi[7]
- Ffilmiau sy'n portreadu Cymru a diwylliant Cymru mewn ffyrdd newydd ac anghonfensiynol.

Rydym hefyd yn awyddus i gefnogi gwneuthurwyr ffilmiau Cymreig o bob rhan ddaearyddol o Gymru.

## Beth nad ydym yn gallu ei ariannu

Ni allwn ariannu'r canlynol gyda'r gronfa hon:

- Gwaith sydd wedi'i fwriadu'n bennaf i gipio ffurf gelfyddydol arall, fel theatr ffilm, digwyddiadau chwaraeon neu gerddoriaeth
- Ffilmiau byr (neu ffilmiau sy'n fyrrach na 70 munud)
- Gosodwaith artistiaid
- Gwaith nad yw'n waith clywedol yn bennaf
- Gwaith a fwriedir yn bennaf ar gyfer teledu

[6] I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn ymdrin â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, darllenwch ein Cynllun Gweithredu Ffilm i Bawb yn ffilmcymruwales.com/cy/ffilm-i-bawb.
[7]Mae hon yn elfen allweddol o gyllid ffilm y Loteri

Y rheswm am hyn yw bod cyllid arall ar gael gan ddarlledwyr, Cyngor Celfyddydau Cymru, Cymru Greadigol a sefydliadau eraill i gefnogi'r uchod. Gallwch hefyd gael gafael ar gyllid ar gyfer ffilmiau byr drwy ein cynllun Beacons[8].

## Sut ydw i'n gwneud cais?

Oherwydd ein bod yn rheoli arian cyhoeddus, rhaid i ni sicrhau nad ydym yn rhoi mantais annheg i unrhyw ymgeisydd a bod gennym brosesau clir a thryloyw ar waith. Mae hynny'n golygu na allwn asesu prosiectau'n anffurfiol ac mae'n rhaid i chi wneud cais drwy gyflwyno ffurflen gais sydd ar gael ar ein gwefan i applications@ffilmcymruwales.com ynghyd ag unrhyw ddeunyddiau ategol gofynnol erbyn y dyddiad cau (oni chytunir ar fformat arall i gefnogi mynediad).

O bryd i'w gilydd, efallai y byddwn yn gofyn am geisiadau ac yn datblygu cynigion gyda sefydliadau trydydd parti ac unigolion sy'n archwilio cydweithrediadau newydd a datblygol, traws-gelfyddydol/ar draws y diwydiant creadigol.

Gall unigolion wneud ceisiadau (ar gyfer costau datblygu sgriptiau) neu gynhyrchydd neu gwmni cynhyrchu. Os oes cynhyrchydd ynghlwm â'r prosiect, nhw ddylai fod yn ymgeisydd. Os oes mwy nag un cynhyrchydd yn rhannu'r hawliau, yna dylai un ohonynt gyflwyno'r cais ac os bydd y cais yn llwyddiannus efallai y bydd angen i ni fynd i gontract gyda'r ddau gwmni. Os oes cwmni cynhyrchu ynghlwm â'r prosiect, ni ddylai'r awdur neu'r cyfarwyddwr fod yn berchen ar gyfran fwyafrifol yn y cwmni hwnnw.

Mae'n bwysig eich bod yn ymateb i bob cwestiwn ar y ffurflen gais oni bai ei fod yn ddewisol, gan na fydd ceisiadau anghyflawn yn cael

[8] ffilmcymruwales.com/funding-and-training/beacons-short-film-funding

eu hasesu. Yn yr amgylchiadau hyn, byddwn yn gofyn i chi lenwi ac ailgyflwyno eich cais.

Gyda rhai cwestiynau, cewch ddewis cyflwyno atebion ar ffurf ysgrifenedig, fideo neu nodyn llais. Neu, fe gewch ymateb i'r cwestiynau naratif ar y ffurflen gais drwy fideo drwy fideo byw neu alwad ffôn gyda'n tîm. Dylid trefnu hyn cyn y dyddiad cau. Bydd yr alwad yn cael ei recordio a'i rhannu gyda'n panel o aseswyr.

## Dyddiadau cau

Cewch gyflwyno eich cais unrhyw bryd ond bydd ceisiadau'n cael eu hadolygu o gwmpas y dyddiadau cau canlynol:

- 14 Tachwedd 2024, hanner dydd
- 1 Chwefror 2025, hanner dydd
- 3 Mehefin 2025, hanner dydd

Gellir ystyried ceisiadau am gyllid datblygu ychwanegol gan brosiectau sydd eisoes yn y grŵp datblygu y tu allan i'r dyddiadau cau hyn.

## A ddylwn i wneud cais am ddyfarniad bach ynteu dyfarniad mawr?

Gall ymgeiswyr wneud cais am ddyfarniadau bach (hyd at £10,000) neu ddyfarniadau mawr (hyd at £24,999) beth bynnag fo lefel profiad eu tîm.

Dylai ymgeiswyr ystyried y swm y maent yn gwneud cais amdano mewn perthynas â cham datblygu'r prosiect, a oes cynhyrchydd ynghlwm wrth y prosiect a lefel cyllideb ddisgwyliedig y ffilm.

Fel arfer, bydd rhoddir dyfarniadau bach i naill ai ddatblygiad cam cynnar lle rydych chi'n dal i ganfod y stori (e.e. i ddrafftio

ymdriniaeth) neu ddatblygiad cam hwyr lle nad oes arnoch ond angen swm llai (e.e. i gaboli'r sgript, creu deunyddiau broliant neu i ymestyn opsiwn).

Bydd dyfarniadau mawr ar gyfer prosiectau sydd eisoes wedi cael triniaeth fanwl, os nad oes sgript ddrafft ar gael. Disgwyl i geisiadau am ddyfarniadau mawr gael eu cyflwyno fel arfer gan gynhyrchydd (neu gynhyrchwyr) y ffilm ar ran cwmni cyfyngedig sydd wedi'i gofrestru yn y DU.

Sylwer y gallwn wneud eithriadau i'r uchod yn ôl ein disgresiwn, yn enwedig i brosiectau sy'n dangos cryn dipyn o wreiddioldeb neu sydd angen cymorth cofleidiol i'r ymgeisydd.

Mae'n bwysig deall bod modd adennill cyllid datblygu o gyllideb cynhyrchu eich ffilm os caiff y prosiect ei ariannu'n llawn (gweler y telerau a'r amodau isod).

Gallwn gynnig llai na'r swm rydych chi wedi gofyn amdano neu ofyn i chi cyflwyno ail gais am swm uwch.

## Deunyddiau ategol ar gyfer cais am gyllid datblygu

Bydd gofyn i chi gyflwyno'r canlynol gyda'ch cais am gyllid datblygu:

*Dyfarniadau bach*

a) Fel isafswm, amlinelliad stori o tua 2,000-3,000 o eiriau a sampl ysgrifennu hyd llawn gan yr awdur (e.e. ar gyfer pennod lawn ar gyfer teledu, ffilm, drama). Os yw'r sampl yn un fer, llai nag 20 tudalen, yna dylid darparu dau sampl. Rydym hefyd yn annog darparu ychydig o olygfeydd sampl ar gyfer y syniad rydych chi'n gwneud cais ar ei gyfer os yw eich gwaith ysgrifennu blaenorol mewn arddull neu genre gwahanol iawn. Os oes

sgript ar gyfer y prosiect rydych chi'n gwneud cais ar ei gyfer ar gael, yna gellir darparu honno yn lle'r uchod.

b) CVs ar gyfer eich tîm craidd a dolen weithredol at waith blaenorol mwyaf perthnasol y cyfarwyddwr (os yw wedi'i atodi)
c) Manylion y cytundebau opsiwn i brynu hawliau/hawliau sylfaenol os yw'n berthnasol
d) Copi o bolisi cynaliadwyedd/amgylcheddol, polisi bwlio ac aflonyddu a pholisi amrywiaeth a chynhwysiant eich cwmni (os ydych chi'n gwneud cais fel cwmni).
e) Dolen weithredol i ddarn diweddar o waith a ffilmiwyd gan y cyfarwyddwr OS oes cyfarwyddwr ynghlwm wrth y prosiect.

*Dyfarniadau mawr*

a) Fel isafswm, triniaeth stori o tua 4,800-6,000 o eiriau a sampl ysgrifennu hyd llawn gan yr awdur (e.e. ar gyfer pennod lawn ar gyfer teledu, ffilm, drama). Os yw'r sampl yn un fer, llai nag 20 tudalen, yna dylid darparu dau sampl. Rydym yn annog darparu ychydig o olygfeydd sampl ar gyfer y syniad rydych chi'n gwneud cais ar ei gyfer os yw eich gwaith ysgrifennu blaenorol mewn arddull neu genre gwahanol iawn. Os oes sgript ar gyfer y prosiect rydych chi'n gwneud cais ar ei gyfer ar gael, yna gellir darparu honno yn lle'r uchod.
b) Eitemau b drwodd i e uchod.

Unrhyw ddeunyddiau gweledol eraill fel fideo arddangos y cyfarwyddwr, taflenni teimladau, neu ddesgiau cyflwyno, yn cryfhau eich cais.

Y ffordd orau o gyflwyno dogfennau ategol yw fel un ddolen i lwyfan storio ar-lein a ddarperir yng nghorff eich cais, yn hytrach nag fel atodiadau unigol.

Ni fydd eich cais yn gyflawn nes bydd yr holl eitemau hyn wedi cael eu cyflwyno ynghyd â'r ffurflen gais.

## Manylion y Gyllideb

- Ni ellir defnyddio arian y Loteri yn ôl-weithredol. Dylech wneud cais am gostau cam nesaf y datblygiad ac nid am gyfanswm eich cyllideb datblygu.
- Diffinnir camau ysgrifennu fel a ganlyn ond gallwn hefyd gynorthwyo gyda rhai costau pecynnu/cyn-gynhyrchu neu gostau eraill sy'n gysylltiedig â datblygu'r prosiect. Byddem fel arfer yn cefnogi un cam ysgrifennu ar y tro.
    - Cam un: ymdriniaeth a diwygiadau (oni bai fod ymdriniaeth addas eisoes wedi'i hysgrifennu);
    - Cam dau: drafft cyntaf a diwygiadau;
    - Cam tri: ail ddrafft a diwygiadau;
    - ac yn y blaen
- Gallen gynorthwyo â'r costau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu ffilm fer profi cysyniad /rhagflas ar gyfer y ffilm nodwedd rydych chi'n ei datblygu hyd at uchafswm o £10,000.
- Rhaid i'r holl eitemau fesul llinell fod yn rhesymol a, gan nodi bod y cyllid datblygu yn cael ei ad-dalu o'r gyllideb cynhyrchu, yn fforddiadwy yng nghyd-destun maint tebygol y gyllideb.
- Rydym yn croesawu cyfraniadau cyllid trydydd parti ac fel arfer rydym yn ceisio cyfrannu hyd at 75% o'r costau datblygu sy'n gysylltiedig â'ch cais (gall y 25% sy'n weddill gynnwys cyfraniadau ymarferol, buddsoddiadau gan gynhyrchwyr neu drydydd partïon). Fodd bynnag, fe allwn ariannu 100% o gost y cam datblygu rydych chi'n gwneud cais amdano os mai'r unig opsiwn arall fyddai gohirio awduron, cyfarwyddwyr neu gynhyrchwyr.

- Dyma uchafsymiau'r treuliau sy'n gysylltiedig â datblygu'r prosiect:
    - llety y noson (ar gyfer dinas fawr neu dramor): £150
    - llety y noson - rhanbarthol y DU: £135
    - teithio gan gynnwys hediadau: economi yn unig, dim hediadau o fewn tir mawr y DU a dim tacsis oni bai eu bod yn gysylltiedig â gofynion mynediad.
    - cynhaliaeth (bwyd): £40 y dydd.
    - Mae hyn yn cyd-fynd ag amodau cyffredinol sy'n ymwneud â defnyddio cyllid cyhoeddus ac ni fyddwn talu costau llety, lletygarwch na chynhaliaeth gyffredinol o'r radd flaenaf na chostau teithio dosbarth cyntaf.
    - Nid yw Ffilm Cymru ond yn ariannu costau teithio a llety os ydynt yn rhesymol angenrheidiol i ymchwilio; rhagchwilio, neu os yw'r timau wedi'u lleoli mewn gwahanol rannau o'r DU a bod angen iddynt gwrdd er mwyn datblygu'r prosiect (e.e. ar gyfer gweithdy).
    - Byddem yn disgwyl i dimau ddefnyddio offer cyfarfod ar-lein lle bo hynny'n bosibl i leihau'r gofyn i deithio ac i weithredu'n unol ag egwyddorion cynaliadwyedd amgylcheddol.
    - Ni fyddem ond yn cyfrannu at brydau/cynhaliaeth sy'n uniongyrchol gysylltiedig â theithio a llety a gymeradwywyd.
    - Nid yw TAW yn daladwy ar ddyfarniadau cyllid datblygu Ffilm Cymru. Mae cyfanswm y cyllid a ddarperir drwy ddyfarniadau datblygu Ffilm Cymru y tu allan i gwmpas TAW ac mae'r dyfarniad yn cynnwys yn llawn unrhyw dreth a phob treth a allai fod yn daladwy mewn cysylltiad â derbyn neu ddefnyddio'r dyfarniad. Bydd angen i unigolion sy'n derbyn cyllid Ffilm Cymru dalu unrhyw symiau o'r fath allan o'r dyfarniad ac ni fydd gofyn i Ffilm

Cymru, mewn unrhyw amgylchiadau, dalu unrhyw symiau ychwanegol mewn perthynas â'r cyfryw dreth.

## Costau Mynediad

Cewch restru costau mynediad fel eitem ar linell ar wahân yn eich cyllideb.

Ni fydd y costau hyn yn cyfrif tuag at uchafswm y dyfarniad ac fe allai gynnwys unrhyw gostau rydych chi'n eu rhagweld am ofynion mynediad personol unrhyw aelod o'ch tîm craidd wrth ddatblygu eich ffilm.

Gall y rhain fod yn ofynion penodol ar gyfer pobl sy'n Fyddar, yn Anabl, neu'n niwro-amrywiol, sydd â chyflwr iechyd corfforol neu feddyliol nad ydynt yn ei gysylltu â'r derminoleg hon, neu sydd â chyfrifoldebau gofalu.

Er enghraifft, dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain, costau teithio neu lety ychwanegol ar gyfer aelodau anabl o'r tîm, cynorthwyydd personol ar gyfer aelod o'r tîm sydd ag anabledd dysgu neu gyflwr iechyd meddwl, neu gostau gofal plant.

## Ffioedd awdur a chyfarwyddwr

Mae'n bwysig deall mai blaenswm yn erbyn y ffioedd yn y gyllideb cynhyrchu yw ffioedd awduron a chyfarwyddwyr a rhaid iddynt felly fod yn gymesur â'ch cyllideb ffilmio debygol.

Bydd ffioedd awduron yn amrywio'n fawr yn dibynnu ar brofiad, ond gallwch adolygu cyfraddau a argymhellir gan Writers Guild fel canllaw[9]. Ar gyfer cyd-awduron byddem yn disgwyl i'r ffi ar gyfer pob awdur fod yn is.

[9] writersguild.org.uk/rates-agreements/

Ni ellir talu ffi i gyfarwyddwyr am fod ynghlwm wrth y datblygiad a rhaid iddynt fod yn gwneud pas cyfarwyddwyr, yn cyfarwyddo deunydd datblygu fel cynllun peilot, neu waith cyn-cynhyrchu penodol.

## Ffioedd a gorbenion Cynhyrchwyr

Hyd at £2,000 fesul cam ar gyfer ffioedd cynhyrchwyr a hyd at £4,000 ar gyfer gorbenion — ac eithrio pan fydd ffioedd awdur (ar gyfer drafft neu set) o dan £5,000. Rydym wedyn yn gostwng ein cap ar ffioedd cynhyrchwyr i:

- ffioedd: hyd at £1,000
- gorbenion: hyd at £1,500

Sylwch fod gorbenion yn cael eu gostwng i £3,000 ar gyfer unrhyw gamau dilynol ac y byddem yn disgwyl i gwmnïau cynhyrchu mwy sefydledig gael ceisiadau is am orbenion.

### Ffioedd cyfreithiol

Hyd at £3,500 ar gyfer cytundeb awdur.

Hyd at £2,000 am gytundeb opsiwn a throsglwyddo dros waith unigol sylfaenol sydd eisoes yn bodoli neu am gytundeb gwasanaethau datblygu cyfarwyddwyr neu ddogfen ofynnol arall os cytuna Ffilm Cymru.

### Ffioedd amserlennu a'r gyllideb

Uchafswm o £3,000 ar gyfer prosiectau sydd â chyllideb cynhyrchu o £3.5m neu lai.

Hyd at £5,000 i brosiectau gyda chyllideb cynhyrchu o dros £3.5m

## Alla i gael cymorth gyda fy nghais?

Mae cymorth pellach i wneud cais hefyd ar gael i ymgeiswyr sydd â gofynion mynediad, er enghraifft Unigolion byddar neu drwm eu clyw, Pobl anabl neu niwro-amrywiol, neu bobl sydd â nam ar eu golwg. Er enghraifft, gallwn dalu am ddehonglydd Iaith Arwyddion Prydain ar gyfer cyfarfod gyda ni cyn gwneud cais, darparu cymorth ysgrifenedig i ymgeiswyr dyslecsig, neu gytuno ar fformatau eraill ar gyfer gwneud cais fel fideo byr neu ddeciau sleidiau. Cysylltwch â ni i drafod sut gallwn ni helpu cyn gwneud cais (gweler Manylion Cysylltu isod).

## Manylion Cyswllt

Rhaid anfon ceisiadau wedi'u cwblhau dros e-bost at applications@ffilmcymruwales.com oni bai ein bod wedi cytuno ar ddull arall o'u cyflwyno.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu geisiadau mynediad, cysylltwch â:

Ihsana Feldwick, Cydlynydd Talent: ihsana@ffilmcymruwales.com neu ffonio 02922 676711 a gadael neges gan roi eich enw, rhif, amser o'r dydd pan mae'n hwylus eich ffonio, gan ddweud eich bod yn gofyn am gymorth mynediad.

# Beth fydd yn digwydd nesaf?

## Cadarnhad o'ch cais am gyllid datblygu

Byddwch yn cael cadarnhad ein bod wedi cael eich cais o fewn pythefnos i'w gyflwyno. Yn y cadarnhad hwn, byddwch hefyd yn cael dolen dros e-bost i lenwi ein ffurflen monitro amrywiaeth, a ddylai gael ei llenwi gan yr holl awduron, cyfarwyddwyr a chynhyrchwyr arweiniol ar y prosiect bryd hynny. Mae ymateb 'mae'n well gen i beidio â dweud' ar gael ar gyfer pob cwestiwn ond mae'r atebion rydym yn eu cael yn ein helpu i ddod o hyd i fylchau mewn cynrychiolaeth a chymryd camau i fynd i'r afael â nhw. I gael rhagor o wybodaeth ynghylch pam rydym yn gofyn am y wybodaeth hon, darllenwch ein Cynllun Gweithredu Ffilm i Bawb[10].

[10] ffilmcymruwales.com/cy/ffilm-i-bawb

# Meini Prawf Asesu

Byddwn yn ystyried y canlynol wrth asesu a ddylid cynnig cyllid i brosiect:

- Ansawdd a gwreiddioldeb y prosiect a gallu'r tîm i wireddu eu gweledigaeth greadigol.
- A yw'r prosiect yn ymateb i un neu fwy o'n Blaenoriaethau Ariannu
- A fydd y prosiect yn cael effaith sylweddol ar yrfaoedd a chwmnïau gwneuthurwyr ffilmiau o Gymru.
- Pa mor ymarferol yw'r prosiect o ran cyllideb a chyllid partneriaeth posibl a phrofiad y personél allweddol.
- Dealltwriaeth y tîm o gynulleidfa benodol eu prosiect a'r cynllun i gyrraedd y gynulleidfa honno.
- Potensial y prosiect i gefnogi sector sgrin cynaliadwy yng Nghymru, gan roi sylw i gynaliadwyedd amgylcheddol, amrywiaeth a chynhwysiant, sgiliau a hyfforddiant a datblygiadau arloesol ehangach y busnes.
- Addasrwydd y prosiect ar gyfer arian cyhoeddus. A ellid ei ariannu'n llawn yn fasnachol?
- Y tebygolrwydd y bydd y prosiect yn cael effaith o bwys o'i rhyddhau mewn sinemâu (heb gael ei hunan-gyllido).
- Cydbwysedd cyffredinol ein buddsoddiadau. Byddwn yn ystyried a yw'r prosiect yn ychwanegiad unigryw at set gytbwys o brosiectau a gefnogir gan Ffilm Cymru.

Bydd y broses asesu hefyd yn ystyried sut rydych chi wedi ymdrin ag unrhyw gyllid blaenorol a gawsoch gan Ffilm Cymru.

## Y Broses Asesu

Bydd y penderfyniadau cyllido terfynol yn cael eu gwneud tua wyth wythnos ar ôl y dyddiad cau.

Bydd ceisiadau'n cael eu hasesu gan o leiaf ddau aelod o'r Adran Gynhyrchu, a hyd at un asesydd allanol er mwyn ehangu'r arbenigedd a'r profiad bywyd sy'n bwydo i mewn i asesiadau.

Bydd Ffilm Cymru yn rhoi gwybod i chi o fewn tri diwrnod gwaith i unrhyw ddyddiad asesu a fu eich cais yn llwyddiannus neu'n aflwyddiannus. Gallwn gynnig dim cyllid, y cyfan, neu rywfaint o'r cyllid rydych chi wedi gwneud cais amdano ar ein disgresiwn.

## Amserlen Gwneud Penderfyniadau Dangosol

| | |
|---|---|
| Ymateb i dderbyn cais am gyllid datblygu | O fewn pythefnos |
| Penderfyniadau ariannu | O fewn 8 wythnos o'r dyddiad cau |

## Adborth

Bydd pob penderfyniad yn cael ei gadarnhau drwy e-bost. Pan fydd prosiect yn aflwyddiannus, bydd esboniad byr yn cael ei gynnwys.

Rydym yn derbyn llawer iawn o geisiadau ac nid oes gennym yr adnoddau i roi mwy o adborth manwl i bob prosiect sy'n gwneud cais i ni. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd y tîm yn cysylltu â chi i drafod adborth ymhellach drwy alwad ffôn, yn ôl ei ddisgresiwn ac o fewn ei gapasiti.

Mae Ffilm Cymru yn gronfa ddetholus yn hytrach nag awtomatig a fydd ond yn rhoi hyd at 20 dyfarniad datblygu y flwyddyn. Bydd ceisiadau'n cael eu gwrthod am nifer o resymau, gan gynnwys:

- Gwreiddioldeb y deunydd
- Parodrwydd y tîm i greu ffilm ar y lefel hon
- Pa mor ymarferol yw'r gweithgaredd datblygu arfaethedig
- Sut mae'r prosiect yn cyd-fynd â'n blaenoriaethau cyllido
- A ellid ariannu'r prosiect drwy ddulliau eraill
- Unrhyw elfen arall sy'n ymwneud â'n Meini Prawf Asesu

Nid oes rheidrwydd ar y tîm i ddefnyddio unrhyw adborth a ddarperir gan Ffilm Cymru ac nid yw defnyddio'r adborth yn gwarantu y bydd cyllid yn cael ei ddarparu yn y dyfodol.

## Ailgyflwyno

Ni ellir ailgyflwyno ceisiadau a wrthodwyd yn flaenorol heb gael cymeradwyaeth Ffilm Cymru ymlaen llaw. Dylai'r prosiectau sy'n cael eu ail-gyflwyno ddangos newidiadau sylweddol sy'n mynd i'r afael ag unrhyw adborth blaenorol a gafwyd gan Ffilm Cymru: er enghraifft, ailysgrifennu neu newid cynhyrchydd.

Os ydych chi'n bodloni'r meini prawf ac yn cyflwyno cais newydd ar gyfer yr un prosiect, rhaid i chi nodi'n glir elfennau diwygiedig y prosiect yn y cais.

Hefyd, rhaid trafod ailgyflwyno prosiectau sydd wedi cael cynnig cyllid o'r blaen sydd wedi cael ei ailgylchu gydag aelod o'r tîm a dylech allu dangos bod y prosiect bellach yn weithredol ac yn flaenoriaeth i'ch tîm.

Sylwch, os yw eich prosiect eisoes wedi cael ei wrthod dair gwaith, ni fyddwch yn cael ei ailgyflwyno eto. Felly, ystyriwch yn ofalus wrth benderfynu ailgyflwyno prosiect.

## Sut ydw i'n gweithio gyda Ffilm Cymru os dyfernir cyllid i mi?

Pan fyddwn yn dechrau gweithio gyda chi, byddwn yn llunio 'ffurflen partneriaeth' i ddechrau sgwrs gyda chi ynghylch sut y gallwn eich cefnogi i wneud eich gwaith gorau. Gallai hyn olygu ein bod yn deall i beidio â'ch ffonio pan fyddwch yn ôl eich plant o'r ysgol, neu, os yw'n bosibl, cysylltu â chi dros e-bost yn hytrach na dros y ffôn oherwydd problemau clyw neu fyddardod. Ni fydd yn orfodol i chi rannu unrhyw ran o'r wybodaeth hon.

Mae Ffilm Cymru yma i'ch cefnogi drwy'r broses o gynhyrchu ffilm annibynnol, sy'n aml yn anodd. Rydym wedi gweithio ar lawer o ffilmiau annibynnol a gallwn eich helpu i osgoi rhwystrau cyffredin, gan roi cyflwyniadau ac arweiniad a fydd yn eich helpu i ddod â'ch gweledigaeth yn fyw ac i gynulleidfaoedd.

Fodd bynnag, mae gennym gyfrifoldeb hefyd i reoli cronfeydd y loteri yn effeithiol ac i weithio at dwf tymor hir y sector sgrin ac nid prosiectau unigol yn unig. Fel y rhan fwyaf o gyllidwyr, byddwn yn cymeradwyo elfennau allweddol y ffilm ac yn darparu adborth golygyddol a strategol.

Byddwn hefyd yn eich helpu i ystyried sut gallwch chi gefnogi arferion cynaliadwy a chynhwysol yn y sector, gan gynnig cyngor a chefnogaeth ar feysydd fel hyfforddeion, cynaliadwyedd amgylcheddol ac amrywiaeth a chynhwysiant (gweler Ffilm Cymru a Chynaliadwyedd.)

Eich cyfrifoldeb chi fydd sicrhau eich bod yn cyflawni rhwymedigaethau eich cytundeb, gan ganiatáu digon o amser ar gyfer adolygiadau, adborth a chymeradwyaeth gan Ffilm Cymru.

## Y broses o ddyfarnu cyllid

Os byddwch yn llwyddiannus gyda'ch cais, bydd Ffilm Cymru yn anfon llythyr cynnig ac yna cytundeb datblygu ffurf hir, a fydd yn amlinellu holl delerau ac amodau eich cyllid.

## Beth fydd telerau ac amodau fy nghyllid?

Mae gan Ffilm Cymru Delerau Safonol ar gyfer Cyllid Datblygu ond gall nodi amodau cyllid arbennig ychwanegol ar gyfer eich prosiect a fydd yn cael eu nodi yn eich cytundeb datblygu.

Cofiwch nad yw ein Telerau Safonol yn agored i drafodaeth. Ni fydd unrhyw ffioedd cyfreithiol sy'n benodol ar gyfer adolygu cytundeb Cyllid Datblygu Ffilm Cymru yn cael eu cynnwys yn eich cyllideb Cyllid Datblygu.

Mae ein Telerau Safonol yn cynnwys:

- Bydd cynnig o gyllid yn parhau i fod ar agor am gyfnod penodol (6 mis fel arfer). Os na fydd y broses o dynnu arian i lawr yn dechrau yn ystod y cyfnod hwn, mae'n bosibl y bydd y cynnig o gyllid yn cael ei ddiddymu.
- Bydd gofyn i chi ddatblygu Cod Ymddygiad i lywio eich gweithgaredd datblygu, a gweithio gyda ni ar Gynllun Cynaliadwyedd ar gyfer eich prosiect.
- Bydd Ffilm Cymru yn talu arian datblygu i lif arian y cytunwyd arno yn erbyn targedau datblygu penodol.

- Bydd Ffilm Cymru yn cymeradwyo eich cadwyn teitl, unrhyw newidiadau i’ch dyfarniad datblygu ac i’r ‘prif elfennau’ y cytunwyd arnynt ar adeg y dyfarniad (fel awdur, cynhyrchydd, cyfarwyddwr, noddwr partneriaeth). Bydd Ffilm Cymru yn cymeradwyo atodi cyllid trydydd parti i’r prosiect ac unrhyw hawliau sy’n cael eu trosglwyddo’n barhaus.
- Mae ein cyllid datblygu yn cael ei adennill o’r gyllideb cynhyrchu, i’w ad-dalu ar ddiwrnod cyntaf y prif waith ffotograffiaeth/animeiddio.
  - Os yw’r awdur arweiniol, y cyfarwyddwr a’r cynhyrchydd ar brosiect i gyd wedi arwain ffilm nodwedd (boed hyn yn weithio gyda’i gilydd ar yr un ffilm nodwedd, neu ar nodweddion gwahanol yn unigol) sydd wedi cael ei chynhyrchu a chael cytundeb dosbarthu yn y DU[11], yna bydd modd adennill y cyllid a ddyfarnwyd gyda phremiwm o 50%.
  - Os nad yw’r prif awdur neu gyfarwyddwr a/neu gynhyrchydd prosiect wedi arwain ar ffilm nodwedd sydd wedi cael ei chynhyrchu ac wedi cael cytundeb dosbarthu yn y DU eto, yna bydd modd adennill y dyfarniad cyntaf i’r prosiect hwnnw heb bremiwm. Bydd modd adennill unrhyw ddyfarniad dilynol gyda phremiwm o 50%.
- Bydd Ffilm Cymru yn dal o leiaf 5% o’i gyllid yn ôl nes bydd deunyddiau penodol yn cael eu danfon i Ffilm Cymru, gan gynnwys datganiad o’r gost.
- Bydd Ffilm Cymru yn cymryd cyfran o hawliau (gan gynnwys hawlfraint) os bydd noddwr arall yn gwneud hynny.
- Bydd Ffilm Cymru yn cymryd 2% o elw net cynhyrchwyr o unrhyw raglen deledu neu ffilm yn seiliedig ar y prosiect. Os cynigir cyllid cynhyrchu, bydd hyn yn cael ei ddisodli/plygu i’r

[11] Mae hyn yn golygu rhyddhau naill ai’n theatrig neu drwy lwyfan ar-lein mawr lle mae cytundeb dosbarthu masnachol wedi cael ei wneud.

ecwiti y cytunwyd arno ynghylch y cynhyrchiad ar gyfer Ffilm Cymru.

- Bydd gofyn i chi adlewyrchu buddsoddiad Ffilm Cymru drwy gynnwys credyd datblygu yn yr holl ddeunyddiau cyflwyno, ar y sgript, ac yn y credydau terfynol ar gyfer unrhyw brosiect a gynhyrchir yn seiliedig ar y gwaith datblygu a gefnogir gan gynnwys logos ar gyfer Ffilm Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Sefydliad Ffilm Prydain/BFI NETWORK a'r Loteri Genedlaethol yn unol â'ch contract datblygu.
- Bydd angen i chi sefydlu perchnogaeth ar hawliau eiddo deallusol eich prosiect (fel arfer cyn y taliad cyntaf) gan gynnwys cael aseiniad o'r holl hawliau yn y sgript (ac eithrio hawliau llwyfan, radio a nofel y gellir eu cadw i'r awdur); pob hawl gan unrhyw gyfranwyr eraill i'r ffilm; ac, os yw'n berthnasol, opsiwn, trwydded neu aseiniad dros hawliau penodol mewn unrhyw waith sylfaenol (nid yw'r sgript ffilm ei hun yn cyfrif fel gwaith sylfaenol). Byddwn yn nodi mewn trafodaeth â chi ac yn y cytundeb cyllido datblygu, pa gadwyn teitl neu gytundebau clirio sy'n angenrheidiol, o leiaf, i ryddhau ein cyllid. Bydd gofyn i chi bob amser ddal a rheoli'r holl hawliau ffilm a theledu yn y sgript ei hun a chael yr hawl ddi-alw'n-ôl i addasu unrhyw waith sylfaenol yn ffilm nodwedd. Fodd bynnag, er mwyn datblygu eiddo deallusol eich cwmni, efallai y byddwch yn dymuno caffael hawliau ychwanegol (fel hawliau addasu eraill yn y gwaith sylfaenol). Dylech gael eich cyngor cyfreithiol eich hun mewn perthynas â chadwyn teitl a dogfennau clirio ar gyfer eich prosiect.
- Bydd gofyn i chi ystyried sut gallwch chi gefnogi cynaliadwyedd y sector sgrin drwy ddatblygu cynllun cynaliadwyedd gyda'ch swyddog gweithredol yn Ffilm Cymru sy'n mynd i'r afael â'r amgylchedd, amrywiaeth a chynhwysiant, sgiliau a hyfforddiant, ac arloesi ym myd busnes.
- Rhaid i bob dyfarniad gydymffurfio â Deddf Rheoli Cymhorthdal y DU 2022 ac unrhyw reoliadau a rheolau rheoli cymhorthdal

perthnasol eraill, fel sy’n ofynnol gan lywodraeth y DU, sy’n gallu newid. Er mwyn bodloni gofynion tryloywder cymhorthdal, mae’n ofynnol i Ffilm Cymru gyhoeddi manylion unrhyw gwmni sy’n cael mwy na £100,000 o gyllid gennym ni (gan gynnwys yn gronnus yn ystod y gwaith o ddatblygu neu gynhyrchu’r ffilm) ar y gronfa ddata tryloywder cymorthdaliadau (y Gronfa Ddata Cymorthdaliadau) o fewn tri mis i ddyddiad y dyfarniad (neu’r dyddiad y mae’r dyfarniadau cronnus yn fwy na £100,000). Bydd y manylion a gyhoeddir yn cynnwys y canlynol o leiaf:

- Faint o gymhorthdal a dderbyniwyd (swm y dyfarniad)
- Enw’r cwmni
- Rhif cofrestru'r cwmni
- Maint y cwmni
- Bod y cwmni’n ddarparwr nwyddau
- Rhanbarth
- Sector

- Bydd gofyn i chi sicrhau bod eich prosiect yn cael ei gynhyrchu yn unol â gofynion pob undeb ac urdd sydd ag awdurdodaeth a phob cyfraith a statud perthnasol.
- Bydd eich contract datblygu yn cynnwys darpariaethau terfynu safonol.

## Unwaith y bydd fy nyfarniad wedi’i gwblhau

Ar ôl i chi gwblhau cam, gallwch gael trafodaeth gyda’ch swyddog gweithredol yn Ffilm Cymru ynghylch y camau nesaf ar gyfer y prosiect. Gallai hyn gynnwys nodi bod y prosiect:

- yn barod ar gyfer cyllid cynhyrchu. Efallai y byddwch yn gallu codi arian yn annibynnol neu efallai y byddwch am gyflwyno cais am gyllid cynhyrchu i ni.

- angen ei ddatblygu ymhellach, ac os felly, os ydych am gael rhagor o gyllid datblygu gan Ffilm Cymru, dylech wneud cais gyda'r ffurflen gais am gyllid ychwanegol a ddarperir i chi gan eich swyddog gweithredol.

## Nodau Strategol

Isod, rydym yn siarad mwy am ein blaenoriaethau strategol fel cwmni, a fydd yn eich helpu i ddeall rhai o amodau ein cyllid.

### Ffilm Cymru a Chynaliadwyedd

Rydym yn anelu at sector ffilm lle:

- Gall pawb yng Nghymru gymryd rhan, dysgu am, a gweithio mewn diwylliant ffilm yn y ffordd maen nhw eisiau, yn lleol, a heb gael eu cyfyngu gan nodweddion gwarchodedig, iaith na'u statws economaidd-gymdeithasol.
- Mae Cymru'n enwog ar draws y byd fel lle i storïwyr ffilm pwerus a rhyfeddol.
- Mae unigolion a chwmnïau ffilm entrepreneuraidd iawn yn herio'r model busnes ffilm traddodiadol, gan ddatblygu strategaethau incwm sy'n cefnogi cynaliadwyedd tymor hwy y cwmni a'r gweithwyr.
- Mae gan griw medrus ac ystwyth yrfaoedd gwerth chweil sy'n cefnogi eu lles, gan weithio ar draws ffilm, teledu a ffurfiau celf eraill.
- Mae cynaliadwyedd amgylcheddol yn darparu ysbrydoliaeth greadigol yn ogystal â ffyrdd newydd o weithio.

Mae angen i bob cynhyrchiad rydym yn ei ariannu gefnogi cynaliadwyedd amgylcheddol, amrywiaeth a chynhwysiant, sgiliau a hyfforddiant, ac arloesedd busnes ehangach.

Byddwn yn gweithio gyda chi i ddatblygu Cynllun Cynaliadwyedd sy'n unigryw i'ch prosiect a'ch cam datblygu, gan fynd i'r afael â phob un o'r meysydd isod ac ystyried sut maen nhw'n croestorri.

## Cynaliadwyedd Amgylcheddol

Er bod yr argyfwng newid yn yr hinsawdd yn argyfwng i bob sector, mae'r diwydiant cynhyrchu ffilmiau yn cynhyrchu lefel uchel o allyriadau mewn perthynas â'i faint a gellid dadlau ei fod mewn sefyllfa dda i greu effaith. Gall cynhyrchu fod yn wastraffus iawn ac mae'n defnyddio llawer iawn o adnoddau a bydd angen i newid systematig ddigwydd, yn ein barn ni, o'r camau datblygu cynnar, os ydym am gyrraedd allyriadau carbon sero net a bod yn gynaliadwy yn amgylcheddol.

Gan adeiladu ar ein cynlluniau Cymru Werdd, mae Ffilm Cymru wedi creu partneriaethau gyda'r Clwstwr Creadigol, Media Cymru, y BFI a Bafta Albert i gynnal ymchwil a chynnig cyllid ymchwil a datblygu i wella cynaliadwyedd y diwydiant sgrin.

Rydyn ni eisiau clywed am unrhyw syniadau arloesol sydd gennych chi i gyfyngu ar eich effaith amgylcheddol neu i gael effaith gadarnhaol o'r cam datblygu. Boed hynny drwy gynrychiolaeth ar y sgrin (e.e. themâu/naratifau), sut rydych chi'n ymgysylltu â lleoliadau a chymunedau (e.e. ymgorffori diwrnodau gwirfoddoli neu ddysgu ar gyfer eich tîm craidd), neu gyflogi ymgynghorydd gwyrdd i weithio ar eich prosiect gyda chi.

## Amrywiaeth a Chynhwysiant

Dylai ffilm fod ar gyfer pawb. Mae ganddo'r potensial i bortreadu ein brwydrau a'n llawenydd unigryw, gan wella ein hymdeimlad o berthyn. Gall ein helpu i ddeall ein hunain a'n gilydd yn well; a gall ein cludo, am naw deg munud yn unig, i fyd o bosibiliadau diderfyn.

Fodd bynnag, mae llawer o bobl yn dal i gael eu hatal neu eu rhwystro rhag cael mynediad at y sector ffilm a manteisio arno yn y ffordd y mae pobl eraill yn ei wneud. Fel y nodir yn ein Cynllun Gweithredu Ffilm i Bawb, credwn fod newid yn gofyn am ffyrdd

newydd o weithio. Credwn mai ail-ddychmygu ffyrdd mwy cynhwysol o weithio, dysgu am a dathlu ffilm, ymrwymo i rolau hysbysebu a chynnwys cynulleidfaoedd heb gynrychiolaeth ddigonol yn natblygiad ffilm, er enghraifft, yw'r unig ffordd y byddwn yn creu'r math o newid cynaliadwy y gellir ei efelychu, a fydd o fudd i bob un ohonom.

Dylech feddwl am sut byddwch yn cefnogi amrywiaeth a chynhwysiant wrth ddatblygu eich ffilm. Rydym yn argymell eich bod yn ystyried cynrychiolaeth, o ran eich tîm creadigol ac ar y sgrin, sut byddwch yn trefnu'r broses ddatblygu (e.e. defnyddio reidwyr mynediad, rolau cyflogedig ar gyfer y rheini sydd â phrofiad bywyd perthnasol) a/neu feddwl am ymgysylltu â chynulleidfaoedd amrywiol (e.e. gweithio gyda chapsiwnydd creadigol neu ddehonglydd BSL o'r cam datblygu neu drefnu darlleniadau sgriptiau cymunedol).

## Sgiliau a Hyfforddiant

Mae cefnogaeth gan Ffilm Cymru a Llywodraeth Cymru, ynghyd â buddsoddiad mewnol sylweddol a thwf llwyfannau Fideo-ar-alw, i gyd wedi cyfrannu at sector cynhyrchu ffyniannus yng Nghymru. Fodd bynnag, mae hyn wedi arwain at alw cynyddol am griw llawer mwy medrus, ar draws pob rôl a lefel. Bydd angen i bob rhan o'r diwydiant weithio a buddsoddi gyda'i gilydd i ddechrau mynd i'r afael â'r bylchau sgiliau hyn.

Er bod nifer o gynlluniau hyfforddi gwych ar gyfer y sgrin ar waith yng Nghymru, mae mwy i'w wneud i gynnig mwy o leoedd, ar draws yr ystod lawn o rolau a lefelau profiad, ac i leoliadau a chyfleoedd gwaith fod yn fwy gweladwy a chefnogol i hyfforddeion a chysgodeion fel ei gilydd. Mae hyn yn cynnwys addasu arferion gweithio lle mae rhwystrau ariannol, cymdeithasol a mynediad. Dyna pam na ellir mynd i'r afael â heriau sgiliau a hyfforddiant heb roi ystyriaeth lawn i amrywiaeth a chynhwysiant.

Rydym yn gofyn i bob prosiect rydym yn ei ariannu gyda chyllid cynhyrchu dalu lefi sy'n cyfateb i 0.5% o wariant craidd, naill ai i Screen Skills neu i Ffilm Cymru i gefnogi gweithgareddau hyfforddi a sgiliau yn y dyfodol, yn dibynnu ar drefniadau cydariannu'r ffilm.

Rydym yn eich annog i ystyried sgiliau a hyfforddiant fel rhan o'ch proses ddatblygu. Er enghraifft, efallai y byddwch yn penderfynu cynnig lleoliad cysgodi i awdur neu gynhyrchydd newydd o Gymru (gall Ffilm Cymru helpu i strwythuro a recriwtio ar gyfer y cyfleoedd hyn) neu efallai y byddwch am ddatblygu gweithdai sgiliau gyda chymunedau lleol sy'n cael eu darlunio yn eich ffilm. Dylech ystyried yn ofalus sut y gall y gwaith hwn greu gwaddol cyn ymgymryd ag ef.

## Entrepreneuriaeth

Mae'r rhan fwyaf o'r cwmnïau cynhyrchu yng Nghymru sy'n gwneud ffilmiau nodwedd a rhaglenni dogfen yn fach neu'n ficro, yn aml yn cael eu harwain gan un neu ddau aelod parhaol o staff sydd hefyd yn gweithredu fel cynhyrchwyr. Gall fod yn anodd camu'n ôl a pheidio â meddwl fesul prosiect. Dyna pam mae Ffilm Cymru yn awyddus i helpu cynhyrchwyr i archwilio gwahanol ffyrdd o gyrraedd, profi ac adeiladu cynulleidfaoedd gwahanol ar gyfer eu gwaith ac ehangu'r defnydd o'u heiddo deallusol, gan gryfhau eu modelau busnes.  Mae gwerth gwirioneddol hefyd mewn rhannu'r hyn a ddysgir â gwneuthurwyr ffilmiau eraill yng Nghymru fel rhan o rwydwaith cefnogol.

Rydym yn cynnal digwyddiadau 'Magnifier' blynyddol i helpu cynhyrchwyr i ganolbwyntio ar y gwerth gwahanol sydd yn eu prosiect a chwrdd â phobl sy'n gallu helpu i'w echdynnu. Rydym yn awyddus i glywed gennych am:

- gynlluniau ymarferol ar gyfer datblygu a manteisio ar eiddo deallusol (IP) ategol, fel asedau addysgol, estyniadau digidol (fel

realiti rhithwir, gemau neu gynnwys rhyngweithiol), cyhoeddiadau neu gyfleoedd eraill i ddatblygu eich model busnes

- strategaethau datblygu cynulleidfaoedd
- Strategaethau effaith ar gyfer hybrid neu hunan-ryddhau y mae galw amlwg amdanynt

## Cyllid Cynaliadwyedd

Os gallai elfennau o'ch Cynllun Cynaliadwyedd gael effaith hirdymor ar y sector ffilm yng Nghymru a'u bod yn cyd-fynd â'n blaenoriaethau strategol, efallai y cewch eich gwahodd i wneud cais am Gyllid Cynaliadwyedd.

Efallai y byddwn yn cynnig hyd at £10,000 o gyllid grant nad oes angen ei ad-dalu tuag at elfennau a fyddai'n gwneud eich prosiect yn fwy cynaliadwy o ran amrywiaeth a chynhwysiant, sgiliau, yr amgylchedd ac arloesedd busnes fel y diffinnir uchod. Ni ddylai'r cynlluniau hyn ddibynnu ar y ffilm sy'n cael ei chynhyrchu ar hyn o bryd.

Cofiwch mai cyfanswm y pot Cyllid Cynaliadwyedd yw £100,000 a dim ond cynhyrchwyr sy'n derbyn ein cyllid datblygu neu gynhyrchu fydd yn cael eu gwahodd i wneud cais. Byddai ceisiadau cynaliadwyedd ar raddfa fach ar gyfer prosiectau yn ystod y cam datblygu yn fwy tebygol o gael tua £2,000.

Bydd ceisiadau'r Cynllun Cynaliadwyedd yn cael eu hasesu gan o leiaf ddau aelod o'r cwmni ar sail y meini prawf isod, gydag amser cyflawni o chwe wythnos ar ôl cyflwyno'r cais.

# Meini Prawf Cyllido Cynaliadwyedd

- Effaith bosibl y cynllun arfaethedig a maint y gweithgarwch wrth ddatblygu gwerth ariannol, cymdeithasol a/neu ddiwylliannol y ffilm nodwedd sylfaenol, yn ogystal â chwmni'r ymgeisydd.
- Nodwyd hyfywedd y cynllun arfaethedig o ran y gyllideb a'r amserlen.
- Y budd posibl i Gymru o ran cynulleidfaoedd, arloesi a dysgu ar y cyd.
- Yr aliniad â'n Blaenoriaethau Datblygu Talent, os yw'n berthnasol, fel y cyfathrebwyd i'r Ymgeisydd.
- Addasrwydd ar gyfer cymorth y Loteri Genedlaethol – ni ellir cyfnewid ein cyllid am gyllid masnachol nac ôl-weithredol.
- Pa mor dda mae'r ymgeisydd wedi rheoli cyllid Ffilm Cymru yn y gorffennol.

Sylwch, os ydych chi'n gwneud cais am gymorth gydag arloesedd busnes, ni allwn ariannu gweithgarwch dosbarthu traddodiadol na thalu am gostau cyfalaf neu gostau staffio craidd gyda'r cyllid hwn. Gallech edrych ar y cyllid hwn yn hytrach fel cynllun treialu syniadau prosiect-benodol a allai esblygu eich model busnes.

# Telerau Busnes Safonol Ffilm Cymru Wales

Mae'r Telerau Busnes Safonol hyn ("Telerau Safonol") yn rhan o unrhyw gytundeb cyllido ("Cytundeb Cyllido"), a dylid eu darllen ar y cyd ag unrhyw gytundeb o'r fath a gyhoeddir gan CBC Ffilm Cymru (FfCW) mewn perthynas â'ch prosiect ("Prosiect"). Os oes unrhyw wrthdaro rhwng y ddau, yna'r Cytundeb Cyllido fydd drechaf.

1. Gall y gyfraith a rheoliadau'r Llywodraeth ar ddosbarthu arian y Loteri Genedlaethol a Llywodraeth Cymru newid. Felly, mae FfCW yn cadw'r hawl i adolygu cynlluniau cyllido a/neu newid ei bolisïau, ei weithdrefnau a'i feini prawf asesu.

2. Ni fydd FfCW yn atebol am unrhyw golled, difrod neu gostau sy'n deillio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o'r canlynol:
   - Y broses ymgeisio;
   - Penderfyniad FfCW i beidio â rhoi dyfarniad i ymgeisydd; neu
   - Delio â chais.

3. Mae penderfyniadau FfCW ar geisiadau yn derfynol. Ni fydd apeliadau ffurfiol yn erbyn penderfyniadau yn cael eu hystyried oni bai fod gan yr ymgeisydd achos da dros gredu nad oedd y gweithdrefnau ar gyfer prosesu'r cais yn cael eu dilyn neu eu bod wedi cael eu defnyddio mewn modd a fyddai'n niweidio canlyniad y cais. Mae Polisi Cwynion FfCW ar gael ar ein gwefan.

4. Nid yw'n ofynnol i FfCW dalu unrhyw gyllid nes y bydd wedi derbyn copi llawn o'r Cytundeb Cyllid a nes y bydd unrhyw rag-amod fel y'i diffinnir yn y Cytundeb Cyllid wedi'i fodloni.

5. Rhaid i bob dyfarniad gydymffurfio â Deddf Rheoli Cymhorthdal y DU 2022 ac unrhyw reoliadau a rheolau rheoli cymhorthdal perthnasol eraill, fel sy'n ofynnol gan lywodraeth y DU, sy'n

gallu newid. Er mwyn bodloni gofynion tryloywder cymhorthdal, mae'n ofynnol i FfCW gyhoeddi manylion unrhyw gwmni sy'n cael mwy na £100,000 o gyllid gennym ni (gan gynnwys yn gronnus yn ystod y gwaith o ddatblygu neu gynhyrchu'r ffilm) ar y gronfa ddata tryloywder cymorthdaliadau (y Gronfa Ddata Cymorthdaliadau) o fewn tri mis i ddyddiad y dyfarniad (neu'r dyddiad y mae'r dyfarniadau cronnus yn fwy na £100,000). Bydd y manylion a gyhoeddir yn cynnwys y canlynol o leiaf: Faint o gymhorthdal a dderbyniwyd (swm y dyfarniad), Enw'r Cwmni, Rhif cofrestru'r Cwmni, maint y Cwmni, bod y cwmni'n darparu nwyddau, Rhanbarth, Sector.

6. Mae'n ofyniad mwy eang i FfCW dynnu sylw at wybodaeth am nifer y ceisiadau mae'n eu cael, a'r gwobrau a ddyfernir: bydd yr wybodaeth hon yn cynnwys enw'r ymgeisydd llwyddiannus, swm y dyfarniad, enw'r prosiect a phrif fanylion y prosiect.

7. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn rhoi'r hawl i aelodau'r cyhoedd ofyn am wybodaeth benodol sy'n cael ei dal gan FfCW ar ran ein cyllidwyr. Felly, os byddwch yn dewis gwneud cais i FfCW, mae'n bosibl y bydd eich gwybodaeth yn cael ei datgelu o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, oni bai fod sail ddigonol dan y Ddeddf i'w dal yn ôl, fel gyda gwybodaeth sy'n fasnachol sensitif, er enghraifft.

8. Mae FfCW wedi ymrwymo i wella cynaliadwyedd y diwydiant sgrin yng Nghymru. Byddwn yn gofyn i bob tîm o gyfranogwyr lenwi ffurflenni monitro amrywiaeth dienw ac yn gofyn i bob ymgeisydd llwyddiannus ddatblygu cynlluniau cynaliadwyedd i adrodd yn eu herbyn. Gall FfCW gyhoeddi unrhyw ddata amrywiaeth dienw rydych chi'n ei ddarparu bob blwyddyn, wedi'i gyfuno â data arall am y cais a'r dyfarniad, fel y nodir ymhellach yn ein Polisi Preifatrwydd: http://ffilmcymruwales.com/index.php/cy/system/

9. Mae FfCW yn mynnu bod unrhyw fesurau sy'n cael eu cymryd gan ymgeiswyr i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010 – mae rhagor o wybodaeth i'w gweld yn equalityhumanrights.com

10. Mae FfCW yn dosbarthu cyllid y Loteri Genedlaethol gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Sefydliad Ffilm Prydain a chronfeydd gan Cymru Greadigol Llywodraeth Cymru. Yn dibynnu ar y cyllid a dderbynnir, bydd angen i'r rheini sy'n cael y cyllid gydnabod FfCW, Cyngor Celfyddydau Cymru neu'r BFI (gyda chredyd cyfatebol yn cael ei roi i'r Loteri Genedlaethol) a/neu Lywodraeth Cymru ym mhob deunydd llafar ac ysgrifenedig/wedi'i gyhoeddi sy'n ymwneud â'r Prosiect, gan gynnwys defnyddio logos, fel y'u darparwyd.

11. Os oes gan ymgeiswyr neu aelodau o'u tîm craidd unrhyw berthynas â staff neu aelodau bwrdd FfCW, neu aelodau ein prif gyllidwyr, rhaid i'r ymgeisydd nodi hyn yn ei ffurflen gais. Cynghorir ymgeiswyr i beidio â cheisio dylanwadu ar lwyddiant eu cais drwy gysylltu ag aelodau'r bwrdd neu unrhyw un ar wahân i berson cyswllt eu cais.

12. Gall FfCW ddal dyfarndal yn ôl neu ei adhawlio dan yr amgylchiadau canlynol:
   - os yw'r cais wedi cael ei lenwi'n anonest neu gyda gwybodaeth anghywir neu gamarweiniol am y sefydliad neu'r prosiect, boed hynny'n fwriadol neu'n ddamweiniol;
   - os yw'r sawl sy'n cael y dyfarniad yn gweithredu'n anonest neu'n esgeulus o dan anfantais y prosiect, ac
   - unrhyw doramod arall fel y'i diffinnir yn y Cytundeb Cyllido.

# Atodiad

Mae Deddf y Loteri Genedlaethol 1993 (Diwygiwyd 1998) yn amlinellu'r meini prawf allweddol i'w hystyried wrth ystyried ceisiadau am nawdd. Mae Ffilm Cymru Wales yn dehongli'r rhain fel a ganlyn:

**Ansawdd Artistig**
Mae Ffilm Cymru Wales yn ceisio cefnogi'r gwaith o greu ffilmiau gwreiddiol a dramatig.

**Budd Cyhoeddus**
Gellir cyflawni hyn drwy amrywio'r ystod o ddeunydd sinematig a ddarperir; proffilio talent newydd neu gynyddu cynrychiolaeth cymunedau a oedd yn cael eu tangynrychioli o'r blaen, er enghraifft.

**Datblygiad newydd**
Ni chaniateir cyfnewid arian y Loteri. Hynny yw, ni ddylent gymryd lle ffynonellau cyllid eraill sydd ar gael i brosiect penodol. Yn hytrach, gellir eu defnyddio i ysgogi buddsoddiad ychwanegol mewn prosiectau. Gellir defnyddio ein cyllid cynhyrchu mewn partneriaeth â chyllidwyr eraill y Loteri, yn amodol ar gap cyffredinol o 50% o ffynonellau'r Loteri oni ellir diffinio'r ffilm fel 'ffilm anodd'.

**Hyfywedd Ariannol**
Byddwn yn ystyried hyfywedd ariannol y prosiect a pha mor gydnaws yw'r gwahanol elfennau ariannol â thelerau cyllido'r Loteri. Bydd angen cyllidebu'r ceisiadau'n briodol ar gyfer cynulleidfa darged y prosiect a'r farchnad derfynol.

**Cyllid Partneriaeth**
Bydd angen i ymgeiswyr ddangos yn glir bod cyllid partneriaeth yn hyfyw os nad yw eisoes wedi'i sicrhau. Ni fyddwn yn ariannu ffilmiau'n llawn.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

**Galw Clir**
Mae Ffilm Cymru Wales yn ceisio cefnogi prosiectau ffilm sy'n dangos eu bod yn debygol o gael eu dosbarthu, hyd yn oed os yw'r ffilmiau hyn yn darparu ar gyfer cynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol, yn hytrach na chynulleidfaoedd torfol. Mae prosiectau sy'n ymddangos yn annhebygol o gael eu dosbarthu yn annhebygol o fod o fudd i'r cyhoedd ac felly byddent yn methu yn erbyn meini prawf cyllido'r Loteri. Nod Ffilm Cymru Wales yw cefnogi amrywiaeth eang o genres ffilm a chyllidebau, ond ym mhob achos dylid cyllidebu prosiectau'n briodol i adlewyrchu eu potensial tebygol o ran cynulleidfa.

**Rheolaeth Effeithiol**
Mae Ffilm Cymru Wales yn atebol am wariant arian cyhoeddus ac felly mae'n rhaid iddo fodloni ei hun bod yr ymgeisydd yn debygol o gyflawni yn unol â'r gyllideb a'r amserlen a defnyddio'r arian at y diben a fwriadwyd.